**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yn Neuadd Garndolbenmaen ar y 9fed o Fai, 2024 am 7:00 yr hwyr.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams (Golan), Jess Williams (Penmorfa)<br><br>Croesawyd Michael Jones yn ôl ar ôl cyfnod o salwch. |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | John Till (Golan), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | JJ yn cynnig ac RP yn eilio |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Lloches Bws Bryncir:</u> Adroddwyd fod Merfyn Morris o'r Asiant Cefnffyrdd wedi trafod y gwrych hefo perchennog Station Cottage a'i fod am drefnu i gontractwr wneud y gwaith yn fuan.<br><br>Adroddwyd RP fod yna waith torri wedi digwydd wythnos diwethaf ar y gwrych ac nad oedd yn siŵr os yw'r gwaith wedi ei orffen.<br><br><u>Cynllun Heddlu Ysgolion:</u> Adroddwyd bod yna dipyn o gefnogaeth wedi'i dderbyn parthed y mater yma. Mae cefnogaeth wedi'i dderbyn gan Gyngor Tref Nefyn, Cyngor Cymuned Pistyll, Aberdaron, Buan a Llanystumdwy.<br><br>Derbyniwyd ateb gan Unllais Cymru parthed cyngor gan Mabon ap Gwynfor AC i gychwyn deiseb a does dim yn ein rhwystro rhag gwneud. Clerc i gychwyn deiseb. MLW yn cynnig a JJ yn eilio.<br><br><u>Etholiad:</u> Cysylltodd y Clerc â'r Uned Etholiad i ddatgan siomedigaeth nad oes ymateb wedi'i dderbyn i'n gohebiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | parthed yr anfoneb ddyledus. Derbyniwyd cydnabyddiaeth fod yr e-bost wedi'i dderbyn ac wedi'i anfon at Reolwr yr Uned am ymateb. Rhoddwyd prysurdeb oherwydd etholiad cenedlaethol fel rheswm tros ddiffyg ymateb. Clerc i barhau i ddilyn y mater yma.<br><br>Llwybrau Cyhoeddus: Cafwyd diweddariad gan Dewi Owen o'r Uned Llwybrau Cyhoeddus parthed amryw o lwybrau:<br><br>Mae contractwr wedi ei benodi i dynnu'r hen giât haearn ar lwybr rhif 31 Dolbenmaen (llwybr Coed y Llyn - cangen sydd gyferbyn ac adwy Tyddyn Engan) a gosod giât fochyn yn ei le fel y dymuniad y perchennog tir.<br><br>Mae gosod 4 arwydd bost newydd wedi'i ychwanegu i'r gwaith yma:-<br>1. Dechreuad mwyaf gogleddol i'r llwybr yma – Llwybr rhif 31<br>2. Eglwys Sant Mihangel a'r Holl Angylion – Llwybr rhif 38<br>3. Capel Bryn Melyn am Fferm Cefn – Llwybr rhif 129<br>4. Capel Bryn Melyn am Bentrefelin (sydd yn mynd o dan y rheilffordd) - Llwybr rhif 130<br><br>Mae'r arwydd am Bontfaen wedi ei ail godi ac i weld yn iawn ar y funud, ac oherwydd bod rhwystrau ar y llwybr gyferbyn a Phontfaen, sef llwybr rhif 48A sydd yn mynd tuag at Fferm Gwern Ddwyryd, nid ydynt am osod arwydd yn fan yma tan fydd y rhwystrau yma wedi cael eu datryso. Mwy na thebyg y caiff un Pontfaen ei newid bryd hynny hefyd.<br><br>DVLA: Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â Liz Saville-Roberts AS a Mabon ap Gwynfor AC a'i bod wedi derbyn ateb gan Liz Saville-Roberts yn dweud ei bod wedi cysylltu â'r DVLA ar ein rhan a'i bod wedi derbyn ymateb. Rhannwyd yr ymateb gyda'r cynghorwyr cyn y cyfarfod. Awgrymwyd bod angen annog i bawb sydd wedi profi trafferthion gydag Adran Feddygol y DVLA i gysylltu ag Liz-Saville Roberts yn uniongyrchol yn nodi'r trafferthion maent yn ei gael fel y gall roi'r achosion penodol gerbron y DVLA.<br><br>Tendrau: Cynhaliwyd Is-bwyllgor Mynwentydd ar yr 11eg o Ebrill i drafod y tendrau ddaeth i mewn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyflwynwyd yr holl brisiau i'r pwyllgor. Ar ôl ystyried yr holl brisiau, penderfynwyd y canlynol:<br><br>• Rhys Jones (Madog Gardencare) – Mynwent Bethel<br>• Dylan Edwards – Llwybrau Cyhoeddus a Mynwentydd Penmorfa, Pentrefelin, Cwm Pennant, Prenteg a Chae Chwarae Penmorfa.<br>• Idris Jones – Llwybrau Cyhoeddus Bryncir, Garndolbenmaen a Golan.<br><br>GEH yn cynnig a RP yn eilio.<br><br>Soniodd y clerc ei bod wedi llythyru'r tri chontractwr a bod Rhys Jones a Dylan Edwards wedi derbyn ac yn ddiolchgar iawn o'r gwaith. |
| 7 | Mynwentydd | Adroddwyd fod y gwair ym Mynwent Bethel wedi ei dorri cychwyn yr wythnos ond bod dal llawer o wair ar ôl yn y darn gwaelod. Clerc i drefnu cyfarfod safle i drafod gwaith torri'r fynwent gyda'r contractwr.<br><br>Adroddwyd fod toriad wedi cael ei wneud yn y fynwent ym Mhrenteg pnawn yma ac yr oedd bwriad ganddo i fynd yn ei flaen i Bentrefelin wedyn. |
| 8 | Llwybrau Cyhoeddus | Soniwyd fod cwyn wedi'i dderbyn am lwybr sydd ger y Ganolfan Gymdeithasol yng Ngolan. Adroddwyd fod y mater yn cael sylw a bod y gwaith mewn gofal. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Pentrefelin:</u> Adroddwyd fod rhododendrons wedi gordyfu ac yn cael effaith ar weledoedd wrth geisio dod allan o'r gyffordd o dan pont rheilffordd ir ffordd fawr o Treflys. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.<br><br><u>Garndolbenmaen:</u> Soniwyd fod yna lawer o ddŵr ar y ffordd tuag at Ganolfan Ailgylchu Rhwngddwyryd – bosib fod yna gwlfer angen sylw. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.<br><br><u>Bryncir:</u> Adroddwyd er bod cyffordd Glandwyfach yn well ers i'r gwaith ail arwynebu gael ei gwblhau, mae yna dal beryg ac yr angen posib am arwyddion. Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda Merfyn Morris o'r Asiantaeth Cefnffyrdd i drafod ymhellach.<br><br><u>Penmorfa:</u> Dim i'w adrodd<br><br><u>Golan:</u> Adroddwyd bod llawer o'r gwaith clirio wedi ei wneud ond bod rhai darnau yn parhau i edrych yn flêr. Soniwyd nad |

| | | |
|---|---|---|
| | | yw'r tanc $CO_2$ wedi cael ei dynnu a'i symud oddi yno. Clerc i drefnu cyfarfod safle i drafod gwaith dŵr Cwmystradllyn.<br><br>Prenteg: Adroddwyd fod yna goeden ar y ffin rhwng Dolbenmaen a Porthmadog ger Bwlch y Moch wedi tyfu'n uchel ac yn gwyro i'r ffordd.<br><br>Soniwyd hefyd fod yna dwll archwilio yn rhydd ar yr ochr wrth ymyl ble mae'r ceir yn parcio i ddringo Bwlch y Moch.<br><br>Clerc i adrodd am y materion uchod i'r Adran Briffyrdd. |
| 10. | Archwilio Cymru | Soniwyd y Clerc fod y Cyngor Cymuned yn cael archwiliad llawn gan Archwilio Cymru'r flwyddyn yma a bod angen i bob dim gael ei anfon erbyn y 7fed o Awst.<br><br>Mae'r ffurflen flynyddol wedi'i gwblhau ac mae'r ffeil gyllid wedi ei anfon at yr archwilydd mewnol. Gobeithir cael y ffeil yn ôl cyn ein cyfarfod misol ym mis Mehefin. |
| 11. | Hwb Eifionydd | Adroddwyd fod cleifion Hwb Eifionydd yn parhau i gael trafferth cael apwyntiad. Awgrymwyd gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth i Hwb Eifionydd. Cynghorwyr i adael i'r Clerc wybod pa wybodaeth yr hoffent wybod. |
| 12. | Grŵp Mynediad Dwyfor | Mae Megan yn mynychu'r pwyllgorau yma. Mae achos ym Mhentrefelin wedi cael ei roi ger bron y Pwyllgor. |
| 13. | Cynllun Hyfforddi | Eglurodd y Clerc ei bod yn ofynnol i bob Cyngor Cymuned gael Cynllun Hyfforddi. Bydd y Clerc yn creu Cynllun Hyfforddi yn yr wythnosau nesaf ac y bydd angen ei dderbyn a'i gymeradwyo yn y cyfarfod misol nesaf. |
| 14. | Rheolau Ailgylchu Newydd | Adroddodd y Clerc ei bod hi'n ofynnol i bob busnes, sefydliad cyhoeddus wahanu eu gwastraff er mwyn ei ailgylchu ers y 6ed o Ebrill, 2024.<br><br>Soniodd y Clerc ei bod wedi derbyn prisiau gan Veolia, Cyngor Gwynedd a Williams a Williams Cyf.<br><br>Penderfynwyd trafod y mater ymhellach mis nesaf ac yn y cyfamser y dylid rhoi arwyddion i fyny yn y mynwentydd yn hysbysu o'r rheoliadau newydd ac yn annog ymwelwyr i fynd a'u gwastraff gartref, |
| 15. | Gohebiaeth | a. Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith Mis Mai (Rhannwyd) |
| 16. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Cwmni Yswiriant Zurich – dyfynbris 2024-2025<br>b. Archwilio Cymru – Hysbysiad Archwilio<br>c. Parc Cenedlaethol Eryri – Polisi Erthygl 4 – Ymgynghoriad<br>ch. SARPA – Toriadau i wasanaeth rheilffordd |

| | | |
|---|---|---|
| | | d. Unllais Cymru – Bwletin Newyddion<br>dd. Unllais Cymru – Camau Adroddiad Blynyddol<br>e. Cyngor Tref Nefyn – Chwilio am gefnogaeth<br>f. Unllais Cymru – Datganiad cyflogaeth newydd clerc<br>ff. Grŵp Cleifion Eifionydd |
| 17. | Cynllunio | Rhestrau: 1/4 , 8/4, 15/4, 22/4<br><br>Ceisiadau Cynllunio<br><br>Rhif Cais: NP2/16/389F<br>Lleoliad: Beudy Parc, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ<br>Bwriad: Adeiladu storfa amaethyddol ac adeilad offer (Dim gwrthwynebiad) |
| 18. | Materion Ariannol | Ceisiadau am arian: Neb<br><br>Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu<br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.90<br>Veolia = £42.14<br>HSBC = £ 8.00<br><br>Derbyniadau<br><br>Henry Jones Cyf = £110.00<br>Cyngor Gwynedd Praesept = £9,000<br>E W Pritchard = £140.00<br><br>Ychwanegwyd: Henry Jones Cyf = £162.00 (Taliad wedi ei wneud mewn camgymeriad gan Gangen Banc y cwmni yw hwn, nid yw'r taliad yma yn berthnasol i Gyngor Cymuned Dolbenmaen, trefniadau wedi'i wneud i dalu'r arian yn ôl i Henry Jones Cyf)<br><br>Balansau Cyfrifon Banc<br><br>Cadw: £33,304.37<br>Cyfredol: £ 9,680.82 |
| 19. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | Cyfarfod Blynyddol<br>Gwastraff Mynwentydd<br>Hwb Eifionydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llongyfarch a dymuno yn dda i blant yr ardal yn Eisteddfod yr Urdd<br>Cynllun Heddlu Ysgolion - Deiseb |